

No.

PWYLLGOR YMDDEOL YN GYNNAR / DILEU SWYDDI

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2022.

Mae-r Agenda ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd H.C. Hamilton (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.E. Charles, A.M. Ernest, G. John a N.C. Thomas

488 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.J.G. Morgan.

489 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2022 fel cofnod cywir.

490 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

491 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

492 CAIS AM DDISWYDDIAD MEWN PERTHYNAS Â D (CDS)
(GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais am ddileu swydd mewn perthynas â'r cyflogai uchod. O ystyried yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod,

PENDERFYNWYD -

(1) CYMERADWYO taliad diswyddo'n effeithiol o 31 Rhagfyr, 2022 ar sail Cynllun E o Gynllun Ymddeoliad Cynnar / Diswyddo y Cyngor - terfynu ar sail diswyddo (yn amodol ar Benderfyniad (2)).

No.

(2) P E canfyddir cyflogaeth amgen ar gyfer D, bydd yr hysbysiad yn cael ei ymestyn ar gyfer unrhyw gyfnod prawf os oes angen a bydd Penderfyniad (1) yn cael ei ddirymu ynghyd ag unrhyw daliad dileu swydd os bydd y cyfnod prawf yn llwyddiannus.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Penderfynu ar y cais dileu swydd o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

(2) Cynnal cydymffurfiaeth â pholisïau ac arferion Adnoddau Dynol perthnasol fel Adleoli fel y bo'n briodol.

493 CAIS AM YMDDEOLIAD HYBLYG – M (CGC) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais am ymddeoliad hyblyg mewn perthynas â'r cyflogai uchod. O ystyried yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod,

PENDERFYNWYD -

(1) CYTUNO ar ymddeoliad hyblyg M, yn unol â pholisi'r Cyngor, yn amodol ar ddim amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser lle byddai'r gyflogaeth yn cael ei therfynu am reswm gwahanol.

(2) CYMERADWYO defnydd o'r pwerau dirprwyedig priodol, er mwyn galluogi lleihad oriau contract y gweithiwr o 37 awr i 22 awr yr wythnos, wedi'u gweithio ar draws tridiau o 1 Ionawr, 2023.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Penderfynu ar y cais am ymddeoliad hyblyg o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

(2) Cyflawni'r newid angenrheidiol i oriau gwaith y gweithiwr, i gynorthwyo â pharhad y gwasanaeth, rhoi cymorth priodol i gynorthwyo trosglwyddiad y gweithiwr i ymddeol ac ail-fuddsoddi'r arbediad i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.